Sinfonia Cymru

Christmas Concert: Classics and Carols
Rhagfyr 5 December 2025



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Diolch to members of Rhyl Create for designing the cover of our programme this evening.

www.facebook.com/RhylCreate

Cerddorion | Musicians

Rebecca Rouch	Ffliwt | Flute
Polly Bartlett	Obo | Oboe
Lucia Porcedda	Clarinét | Clarinet
Florence Plane	Basŵn | Bassoon
Lynn Henderson	Corn | Horn

Cynnwys | Featuring

St Thomas' Church Choristers
Led by | Dan arweiniad Jeanette Lee

Rhaglen | Programme

W. A. Mozart arr. Linckelmann	Overture to *The Magic Flute*
A. Sullivan arr. A. Pugh	*Ar Hanner Nos yn Glir y Daeth/ It Came Upon the Midnight Clear**
Gustav Holst	Wind Quintet in Ab Major, Op. 14, II. Adagio
S. Rachmaninov arr. C. McDermid	Prelude in Eb major, Op. 23, No. 6
Maurice Ravel arr. Linckelmann	Mother Goose Suite, III. Empress of the Pagodas
Melody from 'Piae Cantiones' arr. A. Pugh	*Y Brenin Wenseslas / Good King Wenceslas**

<u>St Thomas' Church Choristers</u>

Richard R. Terry	Myn Lyking
Welsh Traditional arr. M. Archer	Suo Gân
Cecil Sharpe arr. Valerie Coleman	The Holly and the Ivy
Valerie Coleman	Umoja: The First Day of Kwanzaa
Sixteenth Century French arr. A. Pugh	*Fwyn Fugeiliaid / Ding Dong, Merrily on High!**
Jacques Ibert	Trois Pièces Brèves

Cofiwch y dyddiad | Save the date

Sinfonia Cymru & Julieth Lozano Rolong
Theatr Clwyd, Mold, 1/5/25 @ 20:00

Sinfonia Cymru and soprano Julieth Lozano Rolong are creating something truly special for Wales in 2026.

Enjoy the melodies and rhythms of vibrant songs from Latin America, alongside classical musicians, and with Julieth guiding you through meditative moments to create a deeper connection with the music.

Os hoffech glywed mwy am ddigwyddiadau Sinfonia Cymru sydd I ddod, ewch i www.sinfonia.cymru ac ymunwch â'n rhestr bostio. Gallwch hefyd ein dilyn ni @SinfoniaCymru ar X ac Instagram, neu ddod o hyd i ni ar Facebook.

If you'd like to hear more about Sinfonia Cymru's upcoming events, please visit www.sinfonia.cymru and join our mailing list. You can also follow us @SinfoniaCymru on X and Instagram or find us on Facebook.

Did you enjoy singing this evening?
Join St Thomas' Church Choristers!

We meet every Saturday in St Thomas's Choir Vestry at 1pm.

We would give a warm welcome to anyone interested in joining us.

Every week we practice the hymns/songs, which are chosen to correspond with the Old and New Testament readings, and also the Gospel for our Sunday service at 11am.

Anyone interested could come to a Sunday service and speak to or email Jeanette: jeanettelee@btinternet.com.

Ar Hanner Nos yn Glir y Daeth

Ar hanner nos yn glir y daeth
Y gân nefolaidd gynt;
I daro'u tannau plygu wnaeth
Angylion ar eu hynt:
"Hedd trwy y byd, ewyllys da
Tirionaf Frenin nef" -
Y ddaear mewn distawrwydd dwys
Wrandawai'r hyfryd lef.

Trwy byrth y nef daw'r rhain o hyd,
Ar adain hedd i lawr,
A nofia'u mawl o'r nefol fyd
Uwch holl flinderau'r llawr:
I lawer dyffryn galar prudd
Ymostwng engyl glân,
Ac uwch na'r holl derfysgoedd sydd
Y clywir nefol gân.

Dan bwys ei bai y ddaear brudd
Riddfanna'n ddwys yn awr;
Dan fawl angylion gormes sydd
Yn ymlid oesau'r llawr;
Y dyn wna gam a dyn, ni chlyw
Ganiadau'r engyl glân;
O! gwrando'n awr, er gadael Duw,
A chlyw y nefol gân.

O! D'wysog hedd, adwaenost Ti
Boen, a thrueni'r llawr;
A gwyddost am ein gofid ni,
A'n blinder lawer awr:
Gwasgara ofnau'r byd a'r bedd,
Sy'n cau ein llwybrau'n lân;
A dyro i'r lluddedig hedd
I wrando'r nefol gân.

It Came Upon the Midnight Clear

It came upon the midnight clear,
That glorious song of old,
From angels bending near the earth
To touch their harps of gold:
“Peace on the earth, good-will to men,
From heaven's all-gracious King!”
The world in solemn stillness lay
To hear the angels sing.

Still through the cloven skies they come,
With peaceful wings unfurled;
And still their heav'nly music floats
O'er all the weary world;
Above its sad and lowly plains
They bend on hovering wing;
And ever o'er it Babel sounds
The blessèd angels sing.

Yet with the woes of sin and strife
The world has suffered long;
Beneath the angel-strain have rolled
Two thousand years of wrong;
And man, at war with man, hears not
The love-song which they bring:
O hush the noise, ye men of strife,
And hear the angels sing!

For, lo! the days are hastening on,
By prophet bards foretold,
When, with the ever-circling years,
Comes round the age of gold;
When peace shall over all the earth
Its ancient splendours fling,
And the whole world give back the song
Which now the angels sing.

Y Brenin Wenseslas

Wenseslas, y brenin mwyn,
Gynt edrychodd allan,
Pan odd eira a r bob twyn,
Ddiwrnod Gŵyl San Steffan.
Serog odd yr wybren fawr,
Gwenai'r lloer yn hyfryd;
Yntau'r brenin ganfu nawr
Ŵr yn casglu cynnud.

Wrth ei was, medd ef rhag-llaw,
"Tyrd, a rho imi wybod
Pwy yw'r blin bererin draw,
O ba le mae'n dyfod?"
"Syr," medd yntau, "draw y trig,
Bedair milltir union,
Ar y mynydd, ger y wig,
Lle mae'r Sanctaidd Ffynnon."

"Dwg im dorth a dwg im win;
Dwg y tanwydd gorau;
Gweled gwledd o ryfedd rin
Gawn, tydi a minnau."
Cychwyn ar dymhestlog hynt
Wnaeth y gwas a'r brenin,
Allan i'r gaeafol wynt,
A'r ofnadwy ddrycin.

"Syr, mae'r nos yn duo nawr,
Yntau'r gwynt sy gryfach;
Blinais gan yr ymdrech fawr;
Cam ni rof ymhellach."
"Dilyn," meddai Wenseslas,
"Ôl fy nhroed wrth gerdded,
Ac ni theimli greulon ias
Gwynt y nos cyn oered."

Dilyn ôl y brenin cu
Wnaeth y gwas yn heini;
Codai gwres o'r fan lle bu
Troed y sant yn sengi.
Felly, chwi ddilynwyr Crist,

Good King Wenceslas

Good King Wenceslas looked out
on the feast of Stephen,
when the snow lay round about,
deep and crisp and even.
Brightly shone the moon that night,
though the frost was cruel,
when a poor man came in sight,
gathering winter fuel.

"Hither, page, and stand by me,
if thou knowest it, telling:
yonder peasant, who is he?
Where and what his dwelling?"
"Sire, he lives a good league hence,
underneath the mountain,
right against the forest fence,
by St. Agnes' fountain."

"Bring me flesh and bring me wine,
bring me pinelogs hither;
thou and I will see him dine,
when we bear them thither."
Page and monarch, forth they went,
forth they went together,
through the rude wind's wild lament,
and the bitter weather.

"Sire, the night is darker now,
and the wind blows stronger;
fails my heart, I know not how;
I can go no longer."
"Mark my footsteps, my good page,
tread thou in them boldly.
Thou shalt find the winter's rage
freeze your blood less coldly."

In his master's steps he trod,
where the snow lay dinted;
heat was in the very sod
which the saint had printed.
Therefore, Christians all, be sure,

Fwyn Fugeiliaid

Cysgu y mae'r defaid mân
Ar hyd y meysydd tawel;
Fwyn fugeiliaid beth yw'r gân
Sy'n atsain yn yr awel?
Gogoniant, i Dduw yn yr uchelion.
Gogoniant, i Dduw yn yr uchelion.

Clywch, mae'r moliant yn cryfhau,
A'r nef i gyd yn olau;
Claer angylion sy'n nesáu
Mor bêr yw eu carolau.
Gogoniant, i Dduw yn yr uchelion.
Gogoniant, i Dduw yn yr uchelion.

Draw, mewn preseb gyda Mair,
Mae Baban bach yn gwenu;
Tlws y nef, mewn gwely gwair,
Y Bendigedig Iesu.
Gogoniant, i Dduw yn yr uchelion.
Gogoniant, i Dduw yn yr uchelion.

Ding Dong, Merrily on High!

Ding dong, merrily on high!
In heav'n the bells are ringing;
ding dong, verily the sky
is riv'n with angel singing.
Gloria, hosannah in excelsis!
Gloria, hosannah in excelsis!

E'en so here below, below,
let steeple bells be swungen,
And io, io, io,
by priest and people sungen.
Gloria, hosannah in excelsis!
Gloria, hosannah in excelsis!

Pray ye dutifully prime
your matin chime, ye ringers;
may ye beautifully rhyme
your evetime song, ye singers.
Gloria, hosannah in excelsis!
Gloria, hosannah in excelsis!



Sinfonia Cymru: Dewr, disglair a ledled Cymru

Ni yw cerddorfa talent ifanc Cymru, cartref i gerddorion proffesiynol a deinamig o Gymru a'r byd, pob un dan 30 oed. O berfformio cerddoriaeth glasurol i gyfansoddiadau newydd a chydweithio gyda cherddorion enwog a chyffrous, beth bynnag ry'n ni'n ei wneud, byddwn ni'n chwarae gydag angerdd, cywirdeb ac ysbryd anturus.

Byddwn ni'n perfformio lle mae cerddoriaeth o bwys: yng nghanol cymunedau Cymru. Byddwn ni yn y mannau ble mae'r gynulleidfa'n teimlo'n gartrefol; canolfannau celfyddydol, neuaddau cyngerdd, tafarndai, neuaddau pentref, cartrefi gofal, ysgolion a thu hwnt.

Ry'n ni'n cefnogi ein cerddorion ar ddechrau eu gyrfaoedd proffesiynol. Pan mae nhw'n ymuno, ry'n ni'n eu helpu i dyfu a chymryd yr awenau. Y canlyniad? Perfformiadau o ansawdd eithriadol, lle bynnag ry'n ni'n chwarae.

Bob blwyddyn rydym yn cydweithio gyda artistiaid ysbrydoledig fel Catrin Finch, Jess Gillam ac Abel Selaocoe, gan gyfuno cerddoriaeth glasurol â chymysgedd cyfoethog o arddulliau. Ry'n ni hefyd yn cynnal gweithdai am ddim mewn ysgolion a cholegau, gan feithrin y genhedlaeth nesaf o dalent cerddorol yng Nghymru.

O Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth i Theatr Clwyd, a'n taith Cymuned flynyddol, ry'n ni'n dod â cherddoriaeth i bob cwr o Gymru. Os ydych chi'n byw yma, mae'n siŵr ein bod ni'n perfformio yn rhywle lleol yn fuan. Ymunwch â'n rhestr e-bost i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Gobeithio cawn eich cwrdd mewn cyngerdd yn fuan.

Sinfonia Cymru: Bold, brilliant and all over Wales

We are Wales' orchestra of young talent, a collective of dynamic professional musicians under 30, from Wales and beyond. Whether performing classical masterpieces, new compositions, or collaborations with artists from folk, jazz, and beyond, we play with passion, precision, and a spirit of adventure.

You'll find us where music matters most: in the heart of Welsh communities. We perform in concert halls, village pubs, schools, and care homes across Wales. We support our musicians at the start of their careers, helping them curate concerts and take the lead. The result? Performances of exceptional quality, wherever we play.

Every year, we collaborate with inspiring artists like Catrin Finch, Jess Gillam, and Abel Selaocoe, blending classical music with a rich mix of styles. We also run free workshops in schools and colleges, nurturing the next generation of Welsh talent.

From Aberystwyth Arts Centre to Theatr Clwyd, and our annual Cymuned tour, we bring music to every corner of Wales. If you live here, we're sure to be performing near you soon. Join our email list for updates and we hope to see you at a concert soon.